Dear Customer

**Penysarn Post Office®**
**Penysarn, LL69 9YB**

**Local Public Consultation Decision**

I'm writing to confirm our final plans and let you know of the outcome of our local public consultation for the above branch, which I'm pleased to confirm opened on Tuesday 24 October 2017 at Penysarn Stores, Chapel Street, Penysarn, LL69 9YD, where it is now operating as one of our local style Post Office branches.

We received 9 individual responses from customers and local representatives during the consultation period, with customers welcoming the longer opening times that would be available at the proposed location.

I have carried out a final review of my original proposal and the feedback received during the public consultation period. I was pleased to learn of customers support for the move and we are delighted that Penysarn Post Office is part of the modernisation plans for our network, offering Post Office services that will meet customer needs whilst helping to provide future sustainability. We already have over 3800 branches offering Post Office services in this new way and customer and operator feedback has been very encouraging.

The new local style Post Office will operate from a till on the retail counter enabling customers to carry out a wide range of Post Office products and services alongside retail transactions. I am pleased to let you know that we are enhancing the range of products which will be available at the new branch and customers will still be able to transact manual banking, Transcash, and Royal Mail and Parcelforce International Services. Additionally cheques will continue to be accepted as a method of payment.

The operator will also be making adjustments to improve access for customers. The change also means that local residents will benefit from significantly longer opening hours, including Thursday, Friday, Saturday, Sunday and longer opening times throughout the week, so customers can use our services at times that suit them better.

Full details of the new branch are provided at the end of this letter together with a list of the products and services which will be available.

I have carefully considered my original proposal and the feedback received during the public consultation period. I am confident that the new branch is suitably located and that this new way of offering Post Office services will meet customer needs, whilst helping to provide future sustainability for the branch.

You can also find a copy of this letter on our website at postofficeviews.co.uk. When entering the website you will be asked to enter the code for this branch: 185604

This change to the Post Office network is being carried out in accordance with the Code of Practice for changes to the network, as agreed with the independent statutory consumer watchdog. A full copy of the Code of Practice is available on our website at www.postofficeviews.co.uk, or by contacting us at the address provided at the end of this letter.

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
PostOffice.co.uk

Thank you for considering our proposal.

Yours faithfully

**Suzanne Richardson**
**Regional Network Manager**

**How to contact us:**


postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Customer Helpline: 03452 66 01 15
Textphone: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments
**Please note this is the full address to use and no further address details are required.**


We've published our final plan on-line, to see it, scan here.

If you don't have a QR code scanner on your phone, you can find one in your app store.

**To get this information in a different format, for example, in larger print, audio or braille please contact the Customer Helpline on 03452 66 01 15 or Textphone 03457 22 33 55.**

| Penysarn Post Office information sheet | |
|---|---|
| **Address** | Penysarn Stores<br>Chapel Street<br>Penysarn<br>LL69 9YD |
| **Opening hours** | Monday 07:00 – 20:00<br>Tuesday 07:00 – 20:00<br>Wednesday 07:00 – 20:00<br>Thursday 07:00 – 20:00<br>Friday 07:00 – 20:00<br>Saturday 08:00 – 20:00<br>Sunday 09:00 – 19:00 |
| **Distance** | 75 metres away from the current branch, along varied terrain. |
| **Products & Services** | The majority of Post Office products and services will still be available. |
| **Accessibility & accessibility works** | **Access and facilities**<br>There is a wide door and a threshold strip at the entrance of the new premises. Internally, there will be a hearing loop and space for a wheelchair.<br><br>**Parking**<br>Roadside parking is available within 20 metres of the new premises. |
| **Retail** | Convenience store |
| **Date of Relocation** | Tuesday 24 October 2017 |

| Penysarn Post Office® services available | |
|---|---|
| **Your Postmaster or our Customer Helpline on 03457 223344 will be happy to help you with any queries about product availability or provide you with details of maximum value of transactions. Customers can also shop online at www.postoffice.co.uk** | |
| | **New branch** |
| **Mail** | |
| First & Second Class mail | ✓ |
| Stamps, stamp books (1st class 6 & 12 only, 2nd class 12 only) | ✓ |
| Special stamps (Christmas issue only) & postage labels | ✓ |
| Signed For | ✓ |
| Special Delivery | ✓ |
| Home shopping returns | ✓ |
| Inland small, medium & large parcels | ✓ |
| Express & contract parcels | ✓ |
| British Forces Mail (BFPO) | ✓ |
| International letters & postcards (inc. signed for & Airsure) | ✓ |
| International parcels up to 2kg & printed papers up to 5kg | ✓ |
| Parcelforce Worldwide International parcels | ✓ |
| Articles for the blind (inland & international) | ✓ |
| Royal Mail redirection service | ✓ |
| Local Collect | ✓ |
| Drop & Go | ✓ |
| **Withdrawals, deposits and payments** | |
| Post Office Card Account | ✓ |
| All personal and business banking cash withdrawals, deposits, balance enquiries & enveloped cheque deposits (card, barcoded or manual) | ✓ |
| Postal orders | ✓ |
| Moneygram | ✓ |
| Change giving | ✓ |
| **Bill payments** | |
| Bill payments (card, barcoded or manual) | ✓ |
| Key recharging | ✓ |
| Transcash (without barcode) | ✓ |
| **Driving** | |
| Car tax | ✓ |
| **Licences** | |
| Rod fishing licences | ✓ |
| **Travel** | |
| Pre-order travel money | ✓ |
| On demand travel money | **Euros** |
| Travel insurance referral | ✓ |
| | |
| Mobile Top-ups & E vouchers | ✓ |
| **Payment by cheque** | ✓ |

Other Products are available at **Rhosybol** Post Office,
Siop Paget, Rhosybol, Amlwch, LL68 9PU
4.0 miles away from Penysarn Post Office

**Rhosybol** Post Office Opening Times:

| | |
|---|---|
| Mon | 09:00 – 13:00 |
| Tue – Sat | 09:00 – 12:00 |

Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Pen-y-sarn**
**Pen-y-sarn, LL69 9YB**

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

Rwy’n ysgrifennu i gadarnhau ein cynlluniau terfynol ac i roi gwybod i chi am ganlyniad ein ymgynghoriad cyhoeddus lleol ar gyfer y gangen uchod. Mae’n dda gennyf gadarnhau fod y gangen honno wedi agor ddydd Mawrth 24 Hydref 2017 yn Siop Pen-y-sarn, Stryd y Capel, Pen-y-sarn, LL69 9YD, lle mae nawr yn cael ei rhedeg fel un o ganghennau lleol ffasiwn newydd Swyddfa'r Post.

Cawsom naw o ymatebion unigol gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, gyda chwsmeriaid yn croesawu’r oriau agor estynedig a fyddai ar gael yn y lleoliad arfaethedig.

Rwyf wedi gwneud adolygiad terfynol o'n cynllun gwreiddiol a'r adborth a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Roeddwn yn falch o ddarganfod fod cwsmeriaid yn cefnogi'r symud ac rydym wrth ein bodd fod Swyddfa Bost Pen-y-sarn yn rhan o'r cynlluniau moderneiddio ar gyfer ein rhwydwaith, gan gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post a fydd yn diwallu anghenion cwsmeriaid ac yn helpu i ddarparu cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd mae gennym dros 3800 o ganghennau sy’n cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y ffordd newydd hon, ac mae adborth y cwsmeriaid a'r gweithredwyr wedi bod yn galonogol iawn.

Bydd y Swyddfa Bost leol newydd yn cael ei rhedeg o dil ar gownter y siop. Bydd hyn yn darparu amrediad eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ochr yn ochr â thrafodion y siop. Mae’n dda gennyf allu dweud ein bod yn gwella'r dewis o gynhyrchion a fydd ar gael yn y gangen newydd, a bydd cwsmeriaid yn dal i allu defnyddio cyfleusterau bancio â phapur, Transcash, a Gwasanaethau Rhyngwladol y Post Brenhinol a Parcelforce. Yn ogystal, bydd sieciau'n dal i fod yn dderbyniol ar gyfer talu.

Yn ogystal, bydd y gweithredydd yn gwneud newidiadau i wella mynediad i gwsmeriaid. Mae'r newid yn golygu hefyd y bydd trigolion lleol yn elwa ar oriau agor llawer hirach, gan gynnwys dyddiau Iau, Gwener, Sadwrn, a Sul ac oriau agor estynedig drwy gydol yr wythnos. Felly, gall cwsmeriaid ddefnyddio ein gwasanaethau ar adegau a fydd yn fwy cyfleus iddyn nhw.

Mae manylion llawn am y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn, ynghyd â rhestr o'r cynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i fy nghynllun gwreiddiol a'r adborth a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Rwy'n ffyddiog fod y gangen newydd mewn lleoliad cyfleus ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn diwallu anghenion y cwsmeriaid ac, ar yr un pryd, yn rhoi dyfodol cynaliadwy i'r gangen.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 185604

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

Mae'r newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei wneud yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith, yn ôl yr hyn a gytunwyd â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae copi llawn o’r Cod Ymarfer ar gael trwy fynd i’n gwefan yn www.postofficeviews.co.uk neu gallwch gael copi wrth gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir

**Suzanne Richardson**
**Rheolwraig Rhwydwaith Rhanbarthol**

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments
**Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.**

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I’w weld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â’r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

| Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Pen-y-sarn | |
|---|---|
| **Cyfeiriad** | Siop Pen-y-sarn<br>Stryd y Capel<br>Pen-y-sarn<br>LL69 9YB |
| **Oriau Agor** | Llun 07:00 – 20:00<br>Mawrth 07:00 – 20:00<br>Mercher 07:00 – 20:00<br>Iau 07:00 – 20:00<br>Gwener 07:00 – 20:00<br>Sadwrn 08:00 – 20:00<br>Sul 09:00 – 19:00 |
| **Pellter** | 75 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur. |
| **Cynhyrchion a Gwasanaethau** | Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd. |
| **Hygyrchedd a gwaith hygyrchedd** | **Mynediad a chyfleusterau**<br>Mae yna ddrws llydan a stribed trothwy wrth y fynedfa i'r adeilad newydd.  Y tu mewn, bydd yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn.<br><br>**Parcio**<br>Mae modd parcio ar yr heol o fewn 20 metr i'r adeilad newydd. |
| **Y Siop** | Siop Gyfleustra |
| **Dyddiad yr Adleoliad** | Ddydd Mawrth, 24 Hydref 2017 |

| Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost® Pen-y-sarn | |
|---|---|
| **Bydd eich Postfeistr neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 223344 yn falch eich helpu ag unrhyw ymholiadau am argaeledd cynnyrch neu roi manylion i chi am werth uchaf trafodion. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk** | |
| | **Y gangen newydd** |
| **Post** | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ |
| Signed For | ✓ |
| Special Delivery | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ |
| Parseli Express a chontract | ✓ |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Signed For ac Airsure) | ✓ |
| Parseli Rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✓ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio’r Post Brenhinol | ✓ |
| Local Collect | ✓ |
| Drop & Go | ✓ |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ |
| Bancio personol a busnes: codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw) | ✓ |
| Archebion Post | ✓ |
| Moneygram | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ |
| **Talu Biliau** | |
| Talu biliau (cerdyn, â chod bar neu â llaw) | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ |
| Transcash (heb god bar) | ✓ |
| **Gyrru** | |
| Treth y car | ✓ |
| **Trwyddedau** | |
| Trwyddedau pysgota â gwialen | ✓ |
| **Teithio** | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ |
| Arian Teithio ar gais | **Ewros** |
| Atgyfeirio yswiriant teithio | ✓ |
| | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ |
| **Talu â siec** | ✓ |

Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa Bost **Rhos-y-bol**, Siop Paget, Rhos-y-bol, Amlwch, LL68 9PU
4.0 milltir o Swyddfa Bost Pen-y-sarn

Oriau agor Swyddfa Bost **Rhos-y-bol:**
Llun 09:00 – 13:00
Maw - Sad 09:00 – 12:00